# Cyngor Sir Ddinbych

## Gorchymyn (Mannau Parcio Oddi Ar y Stryd) (Cydgrynhoi) 2021

## Amrywiad Maes Parcio Sgwâr Sant Pedr Rhuthun 2026

Mae Cyngor Sir Ddinbych (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor") wrth arfer ei bwerau dan Adrannau 1(1) a (2) a 2(1) i (3) a rhan IV o Atodlen 9 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (Deddf 1984 y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "Deddf 1984") a phob pŵer arall sy'n ei alluogi, ac wedi ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 o Ddeddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2025 a gellir ei enwi yn Orchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Mannau Parcio Oddi Ar y Stryd) (Cydgrynhoi) 2021 Amrywiad Maes Parcio Sgwâr Sant Pedr Rhuthun 2026

2. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

3. Bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau a osodir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at, ac nid yn dirymu, unrhyw gyfyngiad neu ofyniad a osodwyd gan unrhyw Reoliadau a wnaed, neu sydd mewn grym fel pe baent wedi'u gwneud, dan Ddeddf 1984, neu dan unrhyw ddeddfiad arall, ac os oes gwaharddiad neu gyfyngiad wedi'i osod, amrywio neu'i ddirymu gan y Gorchymyn hwn sy'n gwrthdaro â gwaharddiad neu gyfyngiad a osodwyd gan Orchymyn blaenorol, yna bydd darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn trechu.

4. Os yw llys, Llywodraeth Cymru neu'r Tribiwnlys Cosbau Traffig, yn datgan bod unrhyw ran o'r Gorchymyn hwn yn annilys neu'n anorfodadwy, ni fydd y datganiad hwnnw yn annilysu gweddill y Gorchymyn.

5. Amrywir Gorchymyn Cydgrynhoi Cyngor Sir Ddinbych (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) 2021 (a elwir wedi hyn "y Prif Orchymyn") drwy hyn fel a ganlyn:

6. Mae’r maes parcio a nodir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn wedi’i ddileu o’r Prif Orchymyn ac fe’i disodlir â’r maes parcio sydd wedi’i atodi i’r Gorchymyn hwn a’i lofnodi mewn cysylltiad ag o, fel y nodir yn Atodlen 3 a 4 i’r Gorchymyn, a gaiff felly drwy hyn ei ychwanegu a’i ymgorffori yn atodlenni 1 a 2 i’r Prif Orchymyn;

7. Mae cynllun y maes parcio a nodir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn wedi’i ddileu o’r Prif Orchymyn ac fe’i disodlir â chynllun y maes parcio sydd wedi’i atodi i’r Gorchymyn hwn a’i lofnodi mewn cysylltiad ag o, fel y nodir yn Atodlen 5 i’r Gorchymyn, a gaiff felly drwy hyn ei ychwanegu a’i ymgorffori yn Atodlen 4 i’r Prif Orchymyn;

8. Caniateir defnyddio'r ardal o dir a bennir fel y dangosir ar y cynllun yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn ac a restrir yn Atodlenni 3 a 4 i'r Gorchymyn hwn, yn amodol ar ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, fel lle i barcio cerbydau o'r dosbarthiadau hynny, yn y safleoedd hynny, ar y dyddiau hynny, yn ystod yr oriau hynny, am y cyfnod hwnnw ac ar ôl talu'r ffioedd hynny a hysbysebir ym mhob man parcio ac fel y pennir yn Atodlenni 3 a 4 i'r Gorchymyn hwn (fel y'u hamrywir o bryd i'w gilydd).

**GWEITHREDWYD fel Gweithred drwy osod SÊL GYFFREDIN**
**Cyngor Sir Ddinbych yng ngŵydd**

**Llofnodwr Awdurdodedig ………………………………**

**Dyddiedig y dydd hwn o 2026**

Dyma'r Atodlen 1 y cyfeirir ati yn "Gorchymyn Cydgrynhoi Cyngor Sir Dinbych (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) 2021 - amrywiad Gorchymyn Maes Parcio Sgwâr Sant Pedr Rhuthun 2026".
Dirymu Man Parcio: Maes parcio Sgwâr Sant Pedr: Rhuthun

## ATODLEN 1

Dilëir y Cynlluniau Stryd â'r Rhifau Cynllun canlynol o Orchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) (Cydgrynhoi) 2021:

Dyma'r Atodlen 2 y cyfeirir ati yn "Gorchymyn Cydgrynhoi Cyngor Sir Dinbych (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) 2021 - amrywiad Gorchymyn Maes Parcio Sgwâr Sant Pedr Rhuthun 2026".
Dirymu Man Parcio: Maes parcio Sgwâr Sant Pedr: Rhuthun
Cynllun Rhuthun CP038

## ATODLEN 2

Ychwanegir y Cynlluniau Stryd â'r Rhifau Cynllun canlynol a'u hymgorffori yn atodlenni 1 a 2 Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) (Cydgrynhoi) 2021:

Dyma'r Atodlen 3 y cyfeirir ati yn "Gorchymyn Cydgrynhoi Cyngor Sir Dinbych (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) 2021 - amrywiad Gorchymyn Maes Parcio Sgwâr Sant Pedr Rhuthun 2026".
Dirymu Man Parcio: Maes parcio Sgwâr Sant Pedr: Rhuthun

## ATODLEN 3 - MAN PARCIO TALU

- **Enw’r Man Parcio a Rhif y Cynllun:**
  Maes parcio Sgwâr Sant Pedr: Rhuthun - Cynllun CP038a

- **Safle lle y gall cerbydau aros:**
  Yn gyfan gwbl o fewn bae parcio lle mae'r bae parcio hwnnw wedi’i farcio neu ei ddangos gan unigolyn awdurdodedig

- **Dosbarthiadau cerbydau a ganiateir y gellir eu parcio yn y Maes Parcio:**
  Car, Beic Modur, Cerbyd unigolyn anabl, Cerbyd nwyddau ysgafn,
  Cerbyd trydan, Beic Modur trydan

- **Dyddiau ac oriau gweithredu'r rheolyddion yn y Man Parcio:**
  Pob diwrnod, pob awr

- **Y cyfnod hiraf y gall cerbydau aros yn y Man Parcio:**
  Cyfyngiad aros o 30 munud
  Dim dychwelyd o fewn 4 awr
  Dim deiliaid trwydded yn yr ardal hon

Dyma'r Atodlen 4 y cyfeirir ati yn “Gorchymyn Cydgrynhoi Cyngor Sir Dinbych (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) 2021 - amrywiad Gorchymyn Maes Parcio Sgwâr Sant Pedr Rhuthun 2026”.
Dirymu Man Parcio: Maes parcio Sgwâr Sant Pedr: Rhuthun

**ATODLEN 4 - TABL TARIFFAU MAN PARCIO ODDI AR Y STRYD**

- **Enw’r Man Parcio a Rhif y Cynllun:**
  Maes parcio Sgwâr Sant Pedr: Rhuthun - Cynllun CP038a

- **Cyfnod Codi Tâl (dyddiau ac oriau lle codir tâl):**
  Bob dydd 8:00 am tan 11:00 pm

- **Graddfa Prisiau:**
  Hyd at 30 munud - Am ddim
  Cyfyngiad Aros o 30 Munud
  Dim dychwelyd o fewn 4 awr

**ATODLEN 5 - CYNLLUN Y MAN PARCIO**

| |
|---|
| Dyma'r Atodlen 5 y cyfeirir ati yn “Gorchymyn Cydgrynhoi Cyngor Sir Dinbych (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) 2021 - amrywiad Gorchymyn Maes Parcio Sgwâr Sant Pedr Rhuthun 2026”.<br>Dirymu Man Parcio: Maes parcio Sgwâr Sant Pedr: Rhuthun |

Gweler y Cynllun atodedig - CP038a